Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1308 (Cy. 219)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag aelodaeth a gweithdrefnau Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779 (Cy. 67)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae rheoliad 3(a) ac (c) yn diwygio'r darpariaethau ynghylch penodi swyddog-aelodau i'r bwrdd ac mae rheoliad 3(b) yn mewnosod darpariaeth i ganiatáu i undebau llafur a gydnabyddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â materion cyflogaeth wneud enwebiadau ar gyfer swydd aelod undeb llafur. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau a gyflogir, neu sydd wedi eu cyflogi'n ddiweddar, gan gyrff y GIG yng Nghymru gyda diffiniadau diwygiedig o Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hefyd yn mewnosod darpariaeth ar gyfer y rhai a gyflogir gan Awdurdodau Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 5 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (O.S. 1990/2024), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

aelodaeth a gweithdrefnau ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae rheoliad 7 yn mewnosod diffiniad ar gyfer Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac yn diwygio'r diffiniad o gorff gwasanaeth iechyd i gynnwys Byrddau Iechyd Lleol. Mae rheoliad 8(a) i (c) yn diwygio'r gofynion cymhwystra presennol fel na fyddant ond yn gymwys i Loegr ac mae (d) i (f) yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i anghymhwyso'r rhai sydd wedi eu cyflogi gan gyrff y GIG yng Nghymru o fewn y 12 mis diwethaf rhag dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (O.S. 2009/1385 (Cy. 141)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru fel un o ymddiriedolaethau'r GIG. Mae rheoliad 10 yn diwygio'r gofynion cymhwystra i anghymhwyso'r rhai sydd wedi eu cyflogi gan gyrff y GIG yng Nghymru o fewn y 12 mis diwethaf rhag dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol. Mae rheoliad 11 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017 (O.S. 2017/909 (Cy. 221)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 13 yn diwygio'r diffiniad o gorff gwasanaeth iechyd i gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 14 yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau nad ydynt yn swyddogion i anghymhwyso'r rhai a gyflogir, neu sydd wedi eu cyflogi o fewn y 12 mis blaenorol, gan Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 15 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1308 (Cy. 219)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Rhagfyr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Rhagfyr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *20 Ionawr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 11(6), 18(4), 22(8), 203(9)(a) a (b) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (f) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (e) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) ac (f) o Atodlen 5 iddi.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(**1**) 2006 p. 42; diwygiwyd paragraff 4(1)(a) o Atodlen 3 gan adran 24 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ionawr 2025.

# RHAN 2

## Diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009

### Diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009

**2.** Mae Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

### Diwygio rheoliad 4

**3.** Yn rheoliad 4 (penodi aelodau Bwrdd Iechyd Lleol)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mae'r swyddog-aelodau yn cael eu penodi fel a ganlyn—

(a) mae'r prif swyddog yn cael ei benodi gan y cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion;

(b) mae'r swyddog-aelodau sy'n weddill yn cael eu penodi gan y cadeirydd, yr is-gadeirydd, yr aelodau nad ydynt yn swyddogion a'r prif swyddog.";

(b) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

"(9A) Caiff pob undeb llafur sy'n cael ei gydnabod gan y Bwrdd mewn perthynas â materion cyflogi enwebu dau berson a chaiff Gweinidogion Cymru ddewis person o blith y personau hynny a enwebir i fod yr aelod undeb llafur o dan reoliad 3(4)(c).";

(c) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Ni fydd unrhyw swydd wag ymhlith yr aelodau hynny sy'n gwneud y penodiad yn effeithio ar ddilysrwydd penodiadau a wneir o dan baragraff 2."

### Diwygio paragraff 2 o Atodlen 2

**4.** Yn is-baragraff (1)—

(**1**) O.S. 2009/779 (Cy. 67); mae offerynnau diwygio, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn lle "gan unrhyw un o'r Byrddau Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn." rhodder "gan—";

(b) yn lle paragraffau (a) i (c) rhodder—

"(a) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Ddeddf,

(b) Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf, neu

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig o ran Cymru a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o'r Ddeddf.";

(c) hepgorer paragraff (ch).

**Diwygio paragraff 2 o Atodlen 3**

**5.** Ym mharagraff 2(3) o Atodlen 3 (rheolau ynghylch cyfarfodydd a thrafodion byrddau), yn lle "deg diwrnod" rhodder "bum niwrnod".

## RHAN 3

## Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990

**Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990**

**6.** Mae Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygio rheoliad 1**

**7.** Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o "the Act" mewnosoder—

""the Wales 2006 Act" means the National Health Service (Wales) Act 2006.";

(b) yn y diffiniad o "health service body", ar ôl is-baragraff (ba) mewnosoder—

"(bb) a Local Health Board established under section 11 of the Wales 2006 Act;".

(**1**) O.S. 1990/2024, a ddiwygiwyd gan O.S. 1990/2160, O.S. 1996/1755, O.S. 1997/2990, O.S. 1998/1975, O.S. 1999/945, O.S. 2004/696, O.S. 2004/1016, O.S. 2005/2529, O.S. 2005/2532, O.S. 2006/635, O.S. 2006/946 (Cy. 95), O.S. 2006/1722, O.S. 2008/1269, O.S. 2010/425, O.S. 2012/1641, O.S. 2012/2404, O.S. 2013/235, O.S. 2014/784, O.S. 2014/3090 ac O.S. 2022/251 (Cy. 77); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio rheoliad 11**

**8.** Yn rheoliad 11 (anghymhwyso rhag penodi'n gadeirydd, yn is-gadeirydd ac yn gyfarwyddwyr anweithredol)—

(a) ym mharagraff (1)(e), ar y dechrau mewnosoder "in relation to England,";

(b) ym mharagraff (1)(ee), ar y dechrau mewnosoder "in relation to England,";

(c) ym mharagraff (1)(f), ar y dechrau mewnosoder "in relation to England,";

(d) ar ôl paragraff (1)(h) mewnosoder—

"(j) in relation to Wales, that person is, or has been within the 12 months prior to appointment, in the paid employment of—

(i) a Local Health Board established under section 11 of the Wales 2006 Act,

(ii) an NHS trust established under section 18 of the Wales 2006 Act, or

(iii) a Special Health Authority in relation to Wales established by the Welsh Ministers under section 22 of the Wales 2006 Act.";

(e) hepgorer paragraff (6A);

(f) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(8) For the purposes of paragraph (1)(j)—

(a) a person is not to be treated as having been in paid employment by reason of having held the position of chair, vice-chair or non-officer member of a Local Health Board; chair, vice-chair or non-executive director of an NHS trust; or chair, vice-chair or non-officer member of a Special Health Authority, and

(b) a person is disqualified from being a chair, vice-chair or non-executive director if following that person's appointment as a chair, vice-chair or non-executive director they take up paid employment with any of the bodies listed in paragraph (1)(j) other than in the circumstances specified in this paragraph."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 4

## Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

### Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

**9.** Mae Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

### Diwygio rheoliad 15

**10.** Yn rheoliad 15 (datgymhwyso rhag penodi cadeirydd, is-gadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol)—

(a) yn lle paragraff (1)(d) rhodder—

“(d) os yw’r person hwnnw mewn cyflogaeth am dâl, neu wedi bod mewn cyflogaeth am dâl o fewn y 12 mis cyn y penodiad, gydag—

(i) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o’r Ddeddf,

(ii) ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o’r Ddeddf, neu

(iii) Awdurdod Iechyd Arbennig o ran Cymru a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o’r Ddeddf.”;

(b) hepgorer paragraff (1)(dd);

(c) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) At ddibenion paragraff (1)(d)—

(a) nid yw person i’w drin fel pe bai wedi bod mewn cyflogaeth am dâl oherwydd ei fod wedi dal swydd cadeirydd neu is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol, neu aelod nad yw’n swyddog ohono; cadeirydd neu is-gadeirydd ymddiriedolaeth GIG, neu gyfarwyddwr anweithredol iddi; neu gadeirydd neu is-gadeirydd Awdurdod Iechyd Arbennig, neu aelod nad yw’n swyddog ohono;

(**1**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/990 (Cy. 144), O.S. 2012/1641, O.S. 2013/235, O.S. 2016/100 (Cy. 48), O.S. 2022/251 (Cy. 77) ac O.S. 2022/634; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) mae person yn cael ei ddatgymhwyso rhag bod yn cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol os yw'r person hwnnw, yn dilyn ei benodi'n cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol, yn ymgymryd â chyflogaeth am dâl gydag unrhyw un neu ragor o'r cyrff a restrir ym mharagraff (1)(d) ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir yn y paragraff hwn."

**Diwygio paragraff 2 o Atodlen 2**

**11.** Ym mharagraff 2(3) o Atodlen 2 (rheolau ynghylch cyfarfodydd a thrafodion yr Ymddiriedolaeth), yn lle "ddeng" rhodder "bum".

# RHAN 5

## Diwygio Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017

**Diwygio Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017**

**12.** Mae Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygio rheoliad 2**

**13.** Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd", ar ôl is-baragraff (k) mewnosoder—

"(l) Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o'r Ddeddf;"

**Diwygio rheoliad 5**

**14.** Yn rheoliad 5 (aelodau nad ydynt yn swyddogion – cymhwystra)—

(a) ym mharagraff (1) (aelodau nad ydynt yn swyddogion – cymhwystra)—

(i) hepgorer y "neu" ar ôl is-baragraff (a);

(ii) ar ôl "Ddeddf" yn is-baragraff (b) mewnosoder—

";

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig o ran Cymru a sefydlir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o'r Ddeddf";

(**1**) O.S. 2017/909 (Cy. 221).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ym mharagraff (2) ar ôl “Fwrdd Iechyd Lleol” mewnosoder “neu Awdurdod Iechyd Arbennig,”.

**Diwygio paragraff 3 o Atodlen 2**

**15.** Ym mharagraff 3(1) o Atodlen 2 (rheolau ar gyfer cyfarfodydd a thrafodion AaGIC) yn lle “10” rhodder “5”.

*Jeremy Miles*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Rhagfyr 2024